

BTEC Engineering Operations Level 2



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn cynnig dealltwriaeth ragarweiniol o Beirianeg Drydanol / Electronig.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Ydych eisiau cael cyfuniad o astudiaeth ymarferol a damcaniaethol
- ... Ydych eisiau symud ymlaen at ddiploma estynedig
- ... Hoffech ddilyn prentisiaeth

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs yn gyfuniad o elfennau yn y labordy ac elfennau damcaniaethol. Byddwch yn dysgu trwy gwblhau prosiectau ac aseiniadau a fydd yn seiliedig ar sefyllfaoedd gweithle realistig. Byddwch yn astudio unedau a fydd yn cynnwys:

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Y Byd Saerniedig
Ymchwilio i Gynnyrch Saerniedig
Iechyd a Diogelwch mewn Peirianeg
Gwaith Cynnal a Chadw Peirianegol
Deunyddiau Peirianegol
Adeiladu a Dylunio Cylchedau Electronig
Dehongli a Defnyddio Gwybodaeth Beirianegol
Mathemateg ar gyfer Peirianeg
Gwyddoniaeth Drydanol a Mecanyddol ar gyfer Peirianeg
Gweithredu Gweithle Effeithlon
Cyflwyniad i Gyfathrebu ar gyfer Peirianeg
Dyfeisiadau Electronig a Chymwysiadau Cyfathrebu

Byddwch yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol, fel hunanreoli, gweithio mewn tîm, ymwybyddiaeth busnes, ymwybyddiaeth cwsmeriaid, datrys problemau, cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd sylfaenol, ac agwedd gadarnhaol at waith.

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng arholiadau, gwaith cwrs, aseiniadau, gwaith portffolio, ac asesiadau labordy neu asesiadau ymarferol. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Diploma Cyntaf Lefel 1/2 mewn Peirianeg
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

[Gweithgareddau Sgiliau](#)

[Mathemateg a Saesneg](#)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru ar y cwrs hwn, byddwch angen fan leiaf 4 TGAU, Gradd D neu uwch, yn cynnwys Mathemateg Gradd C; neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol mewn Peirianeg a TGAU Mathemateg Gradd C.

Bydd angen ichi feddu ar sgiliau rhifedd, bod yn greadigol a bod â diddordeb ysol mewn peirianeg. Hefyd, disgwylwch ichi fod â hunangymhelliant, a bod yn weithgar, yn brydlon ac yn ymrwymedig.

Beth sy'n digwydd nesaf?



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BTEC Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Peirianeg Drydanol/Electronig
Prentisiaeth addas
Gwaith fel Technegydd Trydanol neu Electronig

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu eich hun e.e. ffolderi, dalennau rhannu, pennau ysgrifennu, penseli, pren mesur a chyfrifiannell wyddonol.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

